

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10 fed Dachwedd 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Marion Bettenev, Karen Pugh, Gareth Parry, Gwawr Jones, Cyng Sir Elizabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Janet Charlton, Terry Bullock.
Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed Hydref 2014.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Mynychodd yr Arolygydd Gareth Jones a Sarjiant Simon Evans y cyfarfod ac amlinellwyd y trefniadau plismona presennol yn yr ardal. Eglurodd Sarjiant Evans fod troseddu i fyny ychydig ond bod y ffigyrau yn cynnwys digwyddiadau yn y cartref a.y.b. Dywedodd hefyd bod heddwes sydd yn siarad Cymraeg i gael ei gyflogi yn Llanrwst ac y bydd rhestr o'r digwyddiadau lleol yn cael ei hanfon i'r Cyngor Cymuned pob chwarter.

[1.1] Arwyddion/Poster/Di olwg

Cytunodd y Cyng E Roberts i gysylltu gydag adran briffyrdd y Cyngor Sir a hefyd gyda swyddog gorfodaeth APCE. Y clerch i anfon at drefnydd Ffair Hen Olion yn mynegi pryder ynglŷn â'r nifer o bosteri sydd yn cael ei harddangos yn lleol. Penderfynwyd hefyd i ysgrifennu at APCE yn y gwanwyn i'w hatgoffa o gais y Cyngor Cymuned i gynnal adolygiad o'r arwyddion/hysbysiadau.

[1.2] Toiledau Ffordd yr Orsaf

Mynychodd Mr Steven Teale [Adran Amgylchedd Cyngor B S Conwy] y cyfarfod ac amlinellodd y trefniadau presennol ar gyfer y toiledau. Cadarnhaodd Mr Teale y bydd y toiledau ynghyd a chyfleusterau Pont-y-Pair yn cael ei cadw'n agored yn ystod gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

[1.3] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed/Cais Cynnal a Chadw

Cytunodd y Cyng M Bettenev/Jim Boughton a'r clerch i gyfarfod gyda'r Cyng E Roberts a Ms Kim Nicholl yn yr Orsaf ar Ragfyr 9fed am 1.30 y.p.

[1.4] Llinellau Melyn gyferbyn a Gwestai'r Glan Aber ar Gwydyr

Dywedodd y clerch bod y gwaharddiad o'r drefn aros, a hysbysiad cyhoeddus terfynol wedi ei wneud gan Adran Trafnidiaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

[1.5] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clerch bod yr arwydd newydd wedi ei archebu.

[1.7] Materion Priffyrdd

[b] Wal gyferbyn a gwersyllt fferm yr Hendre ar briffordd yr A5. Dywedodd y clerch bod yr asiantaeth briffyrdd yn trefnu i archwilio'r wal.

Y Brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

Diddymu Cytundeb Adran106 dyddiedig 15/1/03, 4 Bwlch y Maen, Pentre Du.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol;

[a] Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi cynorthwyo gydag Arolwg Anghenion Tai a fu'n gadarnhaol bod angen tai fforddiadwy yn y gymyded.

[b] Byddai diddymu'r cytundeb yn anfantais i anghenion pobl ieuanc sydd yn awyddus i gael bod yn berchen eiddo ei hunain.

[1.9] Materion Ariannol

[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod Hydref 2014.

[b] Y Rheadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Hydref 2014.

[2] Gofalwr y Neuadd Goffa

Penderfynwyd i'r Cadeirydd/Is Gadeirydd a'r clerc gynnal cyfweiliad gyda Mr a Mrs Michael Hughes a bod unrhyw benodiad am gyfnod o 3 mis yn y lle cyntaf.

[2.1] Swyddi Gwag y Cyngor Cymuned

Dywedodd y clerc bod Mr Meirion Owen a Mrs Siân Godbert wedi mynegi diddordeb i ymuno fel aelodau o'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd Mr Owen a Mrs Godbert fel aelodau cyfethol o'r Cyngor.

[2.2] Cyhoeddiadau Awtomataidd Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed

Nodwyd yn siomedig bod cyhoeddiadau o enwau Gorsafoedd Rheilffordd Cymru ar rwydwaith Arriva yn gadael llawer iawn i'w ddymuno, gyda rhai datganiadau yn annealladwy. Penderfynwyd tynnu'r mater i sylw Comisiynydd y Gymraeg.

[2.3] Peiriant Arian Parod HSBC

Y clerc i dynnu sylw bod y golau yn wael ar y peiriant.

[2.4] Gŵyl Flodau Hen Eglwys Sant Mihangel

Nodwyd llythyr o ddiolch gan Jim a Lilian Boughton am gyfraniad y Cyngor tuag at yr ŵyl flodau.

Bydd y Gwasanaeth Carolau yng ngolau cannyll yn cael ei gynnal ar ddydd Sul 28ain Ragfyr2014 am 6.00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

Nodwyd hefyd, y bydd Gwasanaeth Carolau'r pentref yn cael ei gynnal yn Eglwys Santes Fair dydd Sul 14eg Ragfyr am 6.30 Yr hwyr.

Cadeirydd _____